



Care & Repair Cymru

POBL HYN YNG NGHYMURU: TLODI YN Y GAEIF 2023-24

Adroddiad Care & Repair Cymru



Hyd yn oed gyda chymorth y Llywodraeth, bydd cleientiaid cyffredin Gofal a Thrwsio yn gwario

19%

o'u hincwm ar gyfleustodau y gaeaf hwn.

Am yr Adroddiad hwn

Bob dydd mae Gofal a Thrwsio yn gweld pobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tai nad ydynt yn ffit na'n ddiogel i fyw ynddynt, heb fawr o gyfleoedd i gael iawn neu i wella eu sefyllfa.

Hyd at fis Ebrill 2023 roedd gan Gofal a Thrwsio wasanaeth arbenigol yn rhoi cyngor ar dlodi tanwydd ac ynni. Roedd bron pob cleient a fu mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn byw mewn tlodi tanwydd. Gan ddefnyddio sampl dienw o'n cleientiaid, fe wnaethom gyfrifo'r gwariant cyfartalog ar ynni dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer cleientiaid Gofal a Thrwsio a ddefnyddiodd y gwasanaeth yma ac a gafodd gymorth y llywodraeth.

Am Gofal a Thrwsio

Gofal a Thrwsio yw pencampwr tai pobl hŷn yng Nghymru Rydym yn gwella cartrefi i newid bywydau. Nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn:

- Fyw mewn cartref sy'n anaddas ar gyfer eu hanghenion
- Dod yn wael oherwydd eu bod yn byw mewn cartref oer
- Byw mewn tŷ sy'n beryglus neu'n anffit i fyw ynddo
- Bod heb yr addasiadau angenrheidiol i'w helpu i fyw'n annibynnol gydag urddas yn eu cartref eu hunain.

Canfyddiadau allweddol

- Hyd yn oed gyda chymorth y llywodraeth, bydd cleientiaid cyffredin Gofal a Thrwsio yn gwario 19% o'u hincwm ar gyfleustodau.
- Yng ngeaf 2022/23, roedd cleientiaid a gysylltodd gyda'n gwasanaeth cyngor ar dlodi tanwydd ac ynni yn gwario cyfartaledd o 25% o'u hincwm ar gyfleustodau.

- Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi rhoi rhaff fywyd i lawer o aelwydydd hŷn yn ystod yr argyfwng costau byw; fodd bynnag, nid yw'r lefel hwn o gymorth yn gynaliadwy.

Y stori hyd yma

Mae cleientiaid Gofal a Thrwsio mewn risg neilltuol o oblygiadau iechyd cartrefi oer a llaith: mae 75% o farwolaethau ychwanegol y gaeaf yn bobl 75 oed a throsodd. Mae cartrefi oer a llaith yn gwaethygu problemau anadlol a risg trawiad calon a strôc. Cafodd cartrefi oer hefyd eu cysylltu gyda mwy o anafiadau o ddigwyddiadau tebyg i gwympiadau a chynnydd mewn cyfraddau derbyn i'r ysbyty.

Y llynedd roedd cleientiaid Gofal a Thrwsio yn gymwys am hyd at £1,900 o gynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hyd yn oed gyda'r cymorth hwn, roedd cleientiaid cyffredin ar-grid Gofal a Thrwsio yn gwario 21% o'u hincwm ar eu biliau tanwydd a dros chwarter eu hincwm ar yr holl gyfleustodau. Ar draws Cymru, roedd y canran o incwm aelwydydd a wariwyd ar filiau cyfleustodau yn amrywio o 8% i 62%. Yr ardaloedd gyda'r ystod mwyaf oedd Caerdydd a Bro Morgannwg, a Gwynedd ac Ynys Môn.

Y stori y gaeaf hwn

Y gaeaf hwn mae aelwyd gyffredin ar-grid Gofal a Thrwsio yn dal i ddefnyddio 15% o incwm eu haelwyd i dalu eu bil tanwydd. Mae hyn er i Ofgem gyhoeddi cap pris ynni is o 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023 nag a ragwelwyd i ddechrau ym mis Awst a chymorth parhaus gyda chostau byw.

Mae pobl hŷn ar gredyd pensiwn yn gymwys am hyd at £1,500 o gymorth eleni. Heb weddill cymorth gan y llywodraeth o'r taliadau parhaus at gostau byw, mae hyn yn codi i 17% a 19% pe na byddai'r clo triphlyg wedi ei gadw. Ni fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ailgyflwyno ei Chynllun Cymorth Biliau Ynni oedd yn rhoi cymorth o £400 i bob aelwyd. Yn ychwanegol, ni fydd cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru oedd yn cynnig cymorth wedi ei dargedu o £200 ar gyfer help tuag at filiau ynni ar gael am 2023/24 chwaith. Mae taliadau sefydlog am drydan a nwy hefyd wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd, gyda'r bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru a Glannau Merswy yn talu £82 yn fwy ar gyfartaledd mewn taliadau sefydlog na phobl sy'n byw yn Llundain.ⁱ

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y gallai hyd at 45% (614,000) o aelwydydd yng Nghymru fod yn byw mewn tlodi tanwydd, cynnydd o 12% (155,000) yn 2018.ⁱⁱ Yn ein sampl o aelwydydd Gofal a Thrwsio oedd wedi defnyddio ein gwasanaeth cyngor ynni, roedd 96% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd. Gyda'r misoedd oerach ar ein gwarthaf, mae hyd yn oed yn fwy amlwg ein bod angen datrysiadau hirdymor gan y llywodraeth i drechu tlodi tanwydd.

Pobl hŷn a'u hincwm dros y gaeaf

Wrth i'r cap prisiau amrywio dros y tri gaeaf diwethaf, felly hefyd y swm a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi aelwydydd i ymateb i gynnydd mawr mewn biliau. Symudodd Ofgem i adolygu'r cap prisiau bob chwarter, rhagwelir y bydd cynnydd arall yn y cap prisiau yn Ionawr 2024. Yn y cyfamser, mae cynlluniau cymorth biliau ynni yn dod i ben ac mae costau hamdden, bwyd a theithio wedi codi. Mae'r tabl isod yn dangos y darlun ar gyfer aelwydydd hŷn ers 2021:

2021/2022	2022/23	2023/24
Pensiwn gwladol: £137.60 (yr wythnos) Gwarant Credyd Pensiwn (ychwanegiad i £177.10 yr wythnos)	Pensiwn gwladol: £141.85 (yr wythnos) Gwarant Credyd Pensiwn (ychwanegiad i £182.60 yr wythnos)	Pensiwn gwladol: £156.20 (yr wythnos) Gwarant Credyd Pensiwn (ychwanegiad i £201.05 yr wythnos)
Heb ei gyflwyno.	Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru: taliad unigol o £200	Dim ar gael ar gyfer 2023/24
Gostyngiad Cartrefi Cynnes: £140	Gostyngiad Cartrefi Cynnes: £150	Gostyngiad Cartrefi Cynnes: £150
Taliad Tanwydd Gaeaf: £200	Taliad Costau Byw Pensiynwr + Taliad Tanwydd Gaeaf: Rhng £250-£600.	Taliad Costau Byw Pensiynwr + Taliad Tanwydd Gaeaf: Rhng £250-£600.

Heb ei gyflwyno	Cynllun Cymorth Biliau Ynni: £400 (dros 6 mis)	Dim ar gael ar gyfer 2023/24
CAP PRISIAU YNNI Hydref 2021: £1,277	CAP PRISIAU YNNI Hydref 2022: £2,500 (EPG)	CAP PRISIAU YNNI Hydref 2023: £1,834

Pobl hŷn a'u hincwm dros y gaeaf: Cleientiaid cyffredin Gofal a Thrwsio

Mae'r tablau isod yn dangos ein hymchwil diweddar i incwm a gwariant cleientiaid cyffredin Gofal a Thrwsio ar filiau cyfleustod rhwng 2021/22 a 2023/2024. Nid yw Mrs Jones yn gleient go iawn ond mae'n dangos sefyllfa debyg ein cleientiaid cyffredin.

Mae Mrs Jones yn 75 oed ac yn byw ar ei phen ei hun yn y cartref mae'n berchen arno. Mae'n dŷ teras 3 ystafell wely lle magodd ei theulu a lle bu'n byw gyda'i gŵr tan iddo farw. Mae yn eiddo band D treth gyngor ym Mhentyrch. Cyrhaeddodd oedran ymddeol yn 2007 ac mae ganddi lai na £10,000 o gynilon. Mae'n derbyn pensiwn gwladol ac ychwanegiad credyd pensiwn sy'n golygu fod ganddi hawl i dderbyn mwy o daliadau Costau Byw.

2021/2022		Y FLWYDDYN
Incwm	Pensiwn Gwladol a Chredyd Pensiwn	£9,209.20
	Gostyngiad Cartrefi Cynnes	£140.00
	Taliad Tanwydd Gaeaf	£200.00
	CYFANSWM	£9,549.20
Costau cyfleustodau	Nwy a thrydan	£1,277
	Dwr	£466.82
	CYFANSWM	£1,743.82
	% incwm a wariwyd ar nwy a thrydan	13.4
% incwm a wariwyd ar gyfleustodau		18.3

2022/2023		Y FLWYDDYN
Incwm	Pensiwn Gwladol a Chredyd Pensiwn	£9,495.20
	Gostyngiad Cartrefi Cynnes	£150.00
	Taliad Tanwydd Gaeaf + Costau Byw Pensiynwyr	£600.00
	Cynllun Cymorth Biliau Ynni	£400.00
	Cynllun Cymorth Biliau Ynni (LIC)	£200.00
	Taliad Costau Byw	£900.00
	CYFANSWM	£11,745.20
Costau cyfleustodau	Nwy a thrydan	£2,500
	Dwr	£485.00
	CYFANSWM	£2,985.00
	% incwm a wariwyd ar nwy a thrydan	21.3
% incwm a wariwyd ar gyfleustodau		25.4

2023/2024		Y FLWYDDYN
Incwm	Pensiwn Gwladol a Chredyd Pensiwn	£10,454.60
	Gostyngiad Cartrefi Cynnes	£150.00
	Taliad Tanwydd Gaeaf + Costau Byw Pensiynwyr	£600.00
	Taliad Costau Byw	£900.00
	CYFANSWM	£12,104.60
Costau cyfleustodau	Nwy a thrydan	£1,824
	Dwr	£499.00
	CYFANSWM	£2,323.00
% incwm a wariwyd ar nwy a thrydan		15
% incwm a wariwyd ar gyfleustodau		19.2

A yw taliadau cymorth yn ddatrysiaid cynaliadwy?

Bu taliadau cymorth yn rhaff fywyd ar gyfer llawer o'r cleientiaid y mae Gofal a Thrwsio yn eu cefnogi, gan eu galluogi i fedru talu am hanfodion a chadw'n gynnes dros y gaeaf.

Fodd bynnag, er gwaethaf gostyngiad yn y cap prisiau ynni o 1 Hydref 2023 a chynnydd yn y pensiwn gwladol yn unol â chwyddiant, dengys ein amcangyfrif fod pobl hŷn yn dal i wario cyfran uwch o'u hincwm ar eu biliau cyfleustod o gymharu â lefelau 2021/22. Mae costau cyffredinol aelwydydd hefyd wedi cynyddu, gyda chynnydd o 28% ar gyfartaledd mewn siopa bwyd o 2021ⁱⁱⁱ.

Dengys ein hymchwil fod yr aelwydydd cyffredin y mae Gofal a Thrwsio yn eu cefnogi yn parhau i fyw mewn tlodi tanwydd. Fe wnaeth ein gwasanaeth cyngor ar dlodi tanwydd ac effeitholrwydd gyrraedd bron 3,000 o gartrefi; roedd llawer o'r aelwydydd hyn yn byw mewn cartrefi oer gydag insiweiddiad gwael ac yn delio gyda chostau cynyddol. Soniodd ein gweithwyr achos yn aml am gynnydd mewn dyledion a phryderon droi'r gwres ymlaen dros y gaeaf.

Gwyddom fod llawer o gartrefi yn dal i'w chael yn anodd talu am y cynnydd mewn prisiau ac yn torri'n ôl ar eu hanfodion bob dydd. Mae cynnydd mawr mewn chwyddiant

yn taro galetaf ar aelwydydd bregus, gyda 3.8 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig yn wynebu bod yn ddiymgeledd, cynnydd o 61% ers 2019.^{iv} Dyna pam nad yw Taliadau Costau Byw yn ddatrysiad parhaol i helpu pobl aros allan o dlodi tanwydd.

Mae Care & Repair Cymru yn galw am ddatrysiadau hirdymor i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae gan gartrefi y Deyrnas Unedig £2.2 biliwn o ddyledion ynni, sydd wedi codi gan 70% dros y tair blynedd ddiwethaf.ⁱ Heb ddatrysiadau hirdymor i helpu'r aelwydydd mwyaf bregus, bydd pobl yn parhau i ddogni ynni, gan fynd ymhellach i dlodi tanwydd.

Datrysiadau hirdymor ar gyfer newid hirdymor

Cyflwyno tariff cymdeithasol – Mae'r argyfwng ynni wedi rhoi pwysau difrifol ar aelwydydd, yn arbennig aelwydydd incwm is sy'n aml yn talu mwy am ynni. Mae aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o fod ar fesuryddion blaendalu neu'n methu fforddio gwelliannau mewn effeithiolrwydd ynni. Bydd cynnig cynlluniau pris rhatach i aelwydydd bregus yn golygu yr aiff biliau tu hwnt i fod yn 'deg' i fod yn fforddiadwy. Bydd tariffau cymdeithasol yn golygu fod aelwydydd bregus yn fwy cydnerth yn erbyn cynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol.

Diwygio taliadau sefydlog – Mae taliadau sefydlog biliau ynni wedi cynyddu gan 64% ers cyflwyno'r cap prisiau^v. Mae'r cynnydd mewn taliadau sefydlog yn cael effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is a'r rhai gyda mesuryddion blaendalu sy'n defnyddio llai o ynni nag aelwydydd incwm uchel. Mae hyn yn golygu fod taliadau sefydlog yn ffurfio rhan fwy o filiau'r

aelwydydd hyn. Dylai taliadau sefydlog gael eu gostwng yn sylweddol i adlewyrchu pris fforddiadwy ar gyfer defnyddwyr, yn arbennig y rhai a all fod yn cyfyngu eu defnydd ynn i eu hunain.

Grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gorau – Daw'r arbedion gorau ar filiau ynni o ynni nad yw'n rhaid i ni ei ddefnyddio. Rydym yn galw am grant rhwyd ddiogelwch i unioni diffygion mewn cartrefi mewn cyflwr gwael yng Nghymru, megis to yn gollwng a ffenestri drafftio fydd yn gwella effeithiolrwydd thermol cartrefi. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn ein hadroddiad '[Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru](#)'.

Mae angen datrysiadau hirdymor i gadw'r gwres ymlaen i gadw'n ddiogel a chynnes gartref, gan atal salwch cysylltiedig ag oerfel a mwy o dderbyniadau i ysbyty.

Cyswllt

I gael mwy o wybodaeth am ein gwaith polisi yng Nghymru neu sut y gallwch ein cefnogi, ewch i'n gwefan neu gysylltu â Hannah Peeler, Swyddog Polisi a Chyllid: hannah.peeler@careandrepair.org.uk

Llyfryddiaeth

ⁱ National Energy Action (2023) *Standing charges are hurting low-income households*. Ar gael yn: <https://www.nea.org.uk/news/standing-charge-rises-low-income-households/>

ⁱⁱ Llywodraeth Cymru (2022) *Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi eu modelu ar gyfer Cymru*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/fuel-poverty-modelled-estimates-wales-headline-results-october-2021-html#3>

ⁱⁱⁱ Senedd y Deyrnas Unedig (2023) *Rising cost of living in the UK*. Ar gael yn: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9428/#:~:text=Over%20the%20two%20years%20from,rise%20by%20the%20same%20amount.>

^{iv} Joseph Roundtree Foundation (2023) *Destitution in the UK 2023*. Ar gael yn: <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2023>

^v National Energy Action (2023) *New report reveals energy standing charges set to increase to new high, up by 64%*. Ar gael yn: <https://www.nea.org.uk/news/new-report-reveals-energy-standing-charges-set-to-increase-to-new-high-up-by-64-leaving-low-income-households-worst-hit-2/>



Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestrdedig (**Rhif 1163542**)
a chwmni cyfyngedig drwy warant (**Rhif 09574555**).